# Yn gwneud beth bynnag sydd ei angen

**Trosolwg Blynyddol Cymorth Canser Macmillan 2022**




CYMORTH CANSER MACMILLAN

Rhedeg y Llwybr




Cafodd Debbie ddiagnosis o ganser yr ofari cam tri.

Yn 2022, roedd costau byw cynyddol yn achosi pryderon ariannol ledled y DU, ond roedd yn peri pryder arbennig i bobl oedd yn byw gyda chanser. Gall diagnosis o ganser ddod â baich ariannol enfawr, a gyda chostau byw yn taro'r lefel uchaf ers degawdau, fe wnaeth pobl oedd yn byw gyda chanser droi atom yn fwy nag erioed am gymorth ariannol, rhywun i siarad â nhw ac i helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Darllenwch am sut y gwnaeth y gwaith a wnaethom yn 2022 ein galluogi i gefnogi pobl fel Debbie, sy'n byw gyda chanser yr ofari cam tri.

**"Rydym ni'n lleihau costau pob peth bach y gallwn ni, ond rwy'n teimlo bod ein hopsiynau'n gyfyngedig. Rydyn ni'n cyrraedd misoedd y gaeaf, ac rydw i newydd gael llawdriniaeth, ac i unrhyw un sydd wedi mynd trwy gemotherapi a llawdriniaethau lluosog fel fi, mae mor bwysig cadw'n gynnes a pheidio â phoeni am orfod troi eich nwy a gwres i fyny. Mae'r gefnogaeth a gawsom gan gynghorwyr ar Linell Gymorth Macmillan wedi bod yn achubiaeth, ond rwy'n poeni'n fawr am yr hyn sydd i ddod yn y dyfodol."**

# Y gwahaniaeth a wnaethom ni

**Rydyn ni yma i helpu pawb sydd â chanser i fyw bywyd mor llawn ag y gallant, gan ddarparu cymorth corfforol, ariannol ac emosiynol. Byddwn ni'n gwneud beth bynnag sydd ei angen, ni waeth beth yw anghenion person. Byddwn yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi, sut bynnag maen nhw angen i ni wneud hynny – mawr neu fach.**

Yn 2022, cyrhaeddodd a chefnogodd ein gwasanaethau oddeutu **2 filiwn o bobl sy'n bywgyda chanser**.

Cododd ein cefnogwyr a'n codwyr arian swm anhygoel o **£221.2 miliwn**.

Derbyniodd tua **730,000 o bobl gymorth person** i berson gan un neu fwy o'n Gweithwyr Proffesiynol Macmillan neu wasanaethau.

Fe wnaethom sicrhau cyfanswm o **£254 miliwn mewn enillion ariannol ar** gyfer 72,000 o bobl sy'n byw gyda chanser.

Fe wnaethom ddosbarthu dros **£19 miliwn mewn Grantiau Macmillan** ac rydym ni'n amcangyfrif ein bod ni wedi helpu i sicrhau dros £350 miliwn mewn budd-daliadau drwy'r cyngor a ddarparwyd gan ein Llinell Gymorth a Gwasanaethau Hawliau Lles lleol.

Cododd ein Hapêl Grantiau Brys swm syfrdanol o **£2.3 miliwn** i helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw cynyddol.

Rhoddodd dros 10,000 o wirfoddolwyr Macmillan egnïol dros **80,000 awr o'u hamser** i helpu pobl sy'n byw gyda chanser.


Fe wnaethom gwnsela dros **5,300 o bobl** drwy ein gwasanaethau cwnsela arbenigol am ddim.




Gorymdeithiodd cydweithwyr a chefnogwyr Macmillan i'r Trysorlys i gyflwyno mil o nyrsys papur addurnedig gyda negeseuon o gefnogaeth gan ymgyrchwyr.





Roedd 2022 yn nodi 32 mlynedd rhyfeddol o Fore Coffi Macmillan a gwelodd 47,000 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal, gan gynnwys yr un hwn yn Stormont, Gogledd Iwerddon, gan godi swm anhygoel o £15.4 miliwn.



Lansiwyd y gwasanaeth Cymorth Canser y Byddar fel rhan o gynllun peilot dwy flynedd mewn partneriaeth â Self Help UK, gan helpu pobl Fyddar sydd wedi'u heffeithio gan ganser fel Eleni i fanteisio ar grwpiau cymorth a gwybodaeth yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL).




Mae ein cefnogwyr, codwyr arian, gwirfoddolwyr, partneriaid a rhoddwyr yn parhau i fynd yr ail filltir i helpu i godi arian ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser. Yn 2022 gwelwyd pobl fel yr anhygoel Gary McKee yn gwneud 365 marathon mewn 365 diwrnod, gan godi mwy na £1.1 miliwn i Macmillan.



Gweithiodd Macmillan mewn partneriaeth gyda Channel 4 i greu Super Surgeons: A Chance at Life, cyfres ddogfen dair rhan sy'n archwilio gwahanol anghenion cyfannol pobl sy'n byw gyda chanser, ac yn dilyn taith wyth o bobl sy'n byw gyda chanser yn cael llawdriniaeth arloesol yn y Royal Marsden.




Daeth ein Cynhadledd a Gwobrau Rhagoriaeth Gweithwyr Proffesiynol Macmillan â mwy na 600 o weithwyr proffesiynol at ei gilydd i rwydweithio, rhannu, dysgu a dathlu.

# Ein hymateb i'r argyfwng costau byw

Mae costau byw cynyddol yn golygu bod llawer o bobl sy'n byw gyda chanser wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd.

**Mae ffigurau gan Macmillan yn dangos bod dau o bob tri o bobl â chanser yn y DU ym mis Mehefin 2022 (66% - amcangyfrifir bod dwy filiwn o bobl) yn poeni am gost bwyd neu ddŵr dros y 12 mis nesaf.**
(Macmillan/YouGov, 2022)

Mae Macmillan wedi gweld cynnydd cyflym yn nifer y bobl sydd angen cymorth wrth i gostau byw gyrraedd y lefel uchaf ers degawdau. Daw hyn ar ben yr effaith ariannol bresennol a ddaw yn sgil diagnosis canser.

Diolch i gefnogaeth a haelioni amhrisiadwy ein codwyr arian, gwirfoddolwyr, partneriaid a rhoddwyr yn 2022, mae Macmillan wedi gallu:

- Cefnogi tua 44,000 o bobl gydag arian a chymorth gwaith drwy ein Llinell Gymorth Macmillan. Dywedodd ein partneriaid hefyd eu bod nhw wedi cefnogi ychydig dros 72,000 o bobl drwy Wasanaethau Hawliau Lles Macmillan lleol.
- Dosbarthu dros £19 miliwn mewn taliadau Grantiau Macmillan untro i'n galluogi i helpu dros 48,500 o bobl gyda'u pryderon ariannol.
- Galw ar Lywodraeth y DU i godi budd-daliadau gyda chwyddiant a lansio ymgyrch 'Talu Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) Nawr' i herio oedi i fudd-daliadau hanfodol.
- Nodi £254 miliwn mewn enillion ariannol y gwnaethom ni helpu 72,000 o bobl sy'n byw gyda chanser i'w sicrhau.

**Mae 4 o bob 5 o bobl sy'n byw gyda chanser, ar gyfartaledd, hyd at**

**£891**

**yn waeth eu byd oherwydd eu salwch.**
(Macmillan/Truth, 2020)

**Dysgwch fwy am ein cymorth costau byw.**



# Gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch a chynhwysol

Rydym ni wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion pawb sy'n byw gyda chanser. Mae hyn yn cynnwys cynnal gweithgareddau i gyrraedd mwy o bobl o gymunedau nad ydynt bob amser yn derbyn y wybodaeth, y cymorth neu'r gofal canser maen nhw ei angen ac maen nhw'n ei haeddu.

## Gwybodaeth am ganser ar draws ein gwefan a'n cymuned ar-lein

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu'r wybodaeth gywir i bobl â chanser yn y ffordd gywir, fe wnaethom estyn allan at bobl â chanser o gymunedau ymylol i ddeall sut y gallem ni wella ein cynnwys i helpu gwahanol grwpiau o bobl i gael gafael ar yr wybodaeth maen nhw ei hangen. O ganlyniad, mae rhai o'r newidiadau rydym ni wedi'u gwneud yn cynnwys:

- Cyflwyno fformatau newydd o wybodaeth ar-lein am ganser, gan gynnwys llyfrau sain a hawdd eu deall, cyfieithiadau mewn nifer o ieithoedd gwahanol ac animeiddiadau newydd a chynnwys fideo yn Iaith Arwyddion Prydain.
- Diweddaru ein darluniau meddygol i'w gwneud (lle bo'n briodol) yn niwtral o ran rhywedd a defnyddio ystod o arlliwiau croen.
- Cyhoeddi gwybodaeth newydd ar gyfer pobl LHDTC+, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag elusen cymorth canser ac eiriolaeth ar gyfer pobl LHDTC+, Live Through This.

## Prosiect Cymorth Canser y Byddar Macmillan

Amlygodd y pandemig nifer o rwystrau i'r gymuned Fyddar sy'n gysylltiedig â chyrchu gwybodaeth a chymorth canser. Er mwyn gwella'r gefnogaeth i bobl Fyddar sy'n byw gyda chanser ledled y DU, mae Macmillan wedi partneru â Self-Help UK i lansio gwasanaeth peilot arloesol dwy flynedd. Mae Prosiect Cymorth Canser y Byddar Macmillan yn cynnig:

- Cymorth emosiynol ac ymarferol rhithwir un-i-un mewn BSL trwy wirfoddolwyr Byddar hyfforddedig.
- Cymorth i ofalwyr, gan gynnwys pobl Fyddar sy'n cefnogi person sy'n clywed â chanser.
- Grymuso ar gyfer pobl Fyddar drwy eu galluogi i rannu eu profiadau drwy grwpiau cefnogi cyfoedion Byddar newydd a phresennol.

## Peidiwch â'i wynebu ar eich pen eich hun

Mae'n hysbys bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu rhai o'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf difrifol ymhlith poblogaeth y DU. Gall aelodau'r cymunedau hyn ei chael hi'n anodd cyrchu gofal iechyd sy'n golygu mai dim ond pan fyddant yn dod yn fater brys y bydd materion iechyd yn cael eu trin. I wella hyn, fe wnaethom ymuno â The Travellers' Times a phobl o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i annog mwy o bobl i godi llais a gofyn am help. Ar ôl sgyrsiau a chyfweliadau gydag aelodau o'r gymuned sydd â phrofiad byw o ganser, fe wnaethom greu fideo yn darparu mewnwelediadau defnyddiol am ganser a gwasanaethau Macmillan. Rhoddodd y cyfweliadau a'r sgyrsiau fewnwelediadau hanfodol i ni i'r cymunedau hyn, a gobeithiwn y bydd y fideo yn annog pobl sydd wrth eu gwraidd i gael cymorth cynnar ac i siarad am eu profiad.




**Aelodau o'r Pineapple Club yn chwarae yn y twrnamaint dominos.**

## Pineapple Club

Buom yn gweithio gyda Pineapple Club, clwb cymdeithasol ar gyfer aelodau sydd wedi ymddeol o'r gymuned Affricanaidd Caribïaidd yn Ne Ddwyrain Llundain. Mae ystadegau'n dangos bod gwasanaethau canser yn tan-wasanaethu'r gymuned hon, felly cododd ein tîm Ymgysylltu â'r Gymuned ymwybyddiaeth o gefnogaeth Macmillan trwy fynychu eu cyfarfodydd i roi cyflwyniadau ar wasanaethau Macmillan, annog aelodau i agor am eu profiad gyda chanser, a noddi twrnamaint dominos i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Macmillan. Gyda'i gilydd, amlygodd ein gweithredoedd y gefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n byw gyda chanser o fewn y grŵp cymunedol hwnnw.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae bron i chwarter y bobl yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg ac mae defnydd a hyrwyddo'r iaith wedi ei gwreiddio yn niwylliant Cymru a'i diogelu yn y gyfraith fel iaith swyddogol. Ar ddiwedd 2021, roeddem ni'n un o ddim ond saith elusen yn y DU i gael cynnig Cymraeg cymeradwy gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Nod y Cynllun Iaith Gymraeg yw sicrhau ein bod ni wedi ein harfogi i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ei gwaith, i gydnabod statws swyddogol yr iaith. Yn 2022, fe wnaethom weithio'n galed i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio'n llawn â rheoliad y Gymraeg a hefyd yn datblygu ystod o ddeunyddiau Cymraeg.

## 'Rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi ymladd ac eiriol drosof fi fy hun'

**Cafodd Jules ddiagnosis o ganser yr ysgyfaint cam pedwar, sydd wedi lledaenu i'w hasgwrn cefn a'i phelfis ers hynny.**

> **"Rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi ymladd ac eiriol drosof fi fy hun. Pe na bawn i'n gwneud hynny, byddwn i'n cael fy ngadael ar ôl. Pan fyddaf wedi cael sgan, rwy'n cysylltu yn llythrennol ychydig ddyddiau yn ddiweddarach i weld a yw fy nghanlyniadau i mewn. Os na fyddaf yn gwthio amdano, nid wyf yn gwybod pa mor hir y byddwn i'n eistedd yn y system cyn y byddwn i'n cael gwybod beth yw fy nghanlyniadau."**

**Mae'r pwysau presennol ar y system hefyd yn effeithio ar ei gofal.**

> **"Cefais fy rhuthro drwy fy apwyntiad oherwydd eu bod yn ceisio darparu ar gyfer pawb, ac fe wnaethon nhw drefnu'r prawf gwaed anghywir i mi, ac ni chafodd fy mhresgripsiwn ei archebu. Rydych chi wir eisiau i'r rhan hon o'ch taith fel claf canser fod yn rhedeg yn llyfn, ond mae'r pwysau hyn yn ei gwneud hi'n anoddach ac yn anoddach i hynny ddigwydd."**




# Amseroedd aros canser

**Mae dadansoddiad gan Macmillan yn dangos mai amseroedd aros canser yn y DU ar gyfer 2022 oedd y gwaethaf a gofnodwyd erioed, gan dynnu sylw at frys y sefyllfa mae pobl sy'n byw gyda chanser yn ei hwynebu, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled y wlad.**

Er bod gweithwyr gofal canser proffesiynol yn parhau i fynd y tu hwnt i sicrhau bod pobl yn cael y gofal maen nhw ei angen, rydym ni'n pryderu nad yw'r system bresennol yn gallu cadw i fyny â'r galw digynsail ar ei gwasanaethau. Mae hyn yn golygu, oni bai bod oedi triniaeth yn cael ei daclo yr un mor gyflym, mae perfformiad gwasanaethau canser mewn perygl o waethygu ymhellach.

**Nifer cyfartalog y bobl yn Lloegr y mis a arhosodd fwy na phythefnos i weld arbenigwr yn dilyn atgyfeiriad brys gan feddyg teulu.**




Mae'r holl ffigurau yn seiliedig ar ddadansoddiad o GIG Lloegr, Amseroedd Aros Canser — Cyfres Amser Cenedlaethol Hyd 2009 — Maw 2023

### Mae Macmillan yn galw am y canlynol:

- Rhagor o gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd i helpu i leddfu pryderon amseroedd aros.
- Llywodraeth y DU i gyflwyno cynllun wedi'i ariannu'n llawn i fynd i'r afael â'r ôl-groniad canser.

# Edrych ymlaen

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023 i wella ein gwasanaethau a'n cefnogaeth:

**Helpu mwy o bobl gyda'r argyfwng costau byw** drwy fuddsoddi mwy o arian mewn grantiau a chyngor lles fel bod pobl yn cael yr help ariannol maen nhw wir ei angen. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ym maes ynni a bancio ledled y DU i ysgogi newid ar draws y diwydiant.

**Gwneud ein gwasanaethau'n fwy cynhwysol** drwy gynyddu ein hyrwyddwyr canser mewn cymunedau lleol – gwirfoddolwyr sy'n cynnig cymorth ac arweiniad wedi'u teilwra i bobl sydd bellaf o fanteisio ar gymorth a gwybodaeth canser. Byddwn hefyd yn ffurfio partneriaeth genedlaethol i gynnig grantiau i sefydliadau llawr gwlad sy'n gweithio gyda chymunedau ymylol.

**Gweithio'n agos gyda'n 11,000 o weithwyr proffesiynol Macmillan**, gan gefnogi eu datblygiad a sicrhau bod ganddynt yr offer, y sgiliau, y gefnogaeth a'r adnoddau cywir i ddarparu profiadau gofal personol rhagorol i bobl sy'n byw gyda chanser.

**Trawsnewid ein gwasanaethau gwybodaeth canser** trwy gynyddu eu cyrhaeddiad a gwella'r profiad i bobl â chanser sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

**Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cydgysylltiedig** Mae Improving the Cancer Journey yn wasanaeth llwyddiannus yn yr Alban sy'n rhoi mynediad i bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser at weithiwr cymorth pwrpasol sy'n gallu eu cysylltu â chymorth emosiynol, ymarferol ac ariannol sy'n iawn iddyn nhw. Eleni byddwn yn treialu'r model yn Lloegr.

**Datblygu ein diwylliant mewnol a chynlluniau pobl** i sicrhau y gallwn gyflawni amrywiaeth gynrychioliadol ar draws y sefydliad a bod gan bob cydweithiwr a darpar gydweithiwr brofiad cynhwysol a theg wrth weithio gyda ni.

Yn Macmillan, rydym ni'n rhoi popeth sydd gennym ni i bobl â chanser. Os byddwch chi'n cael diagnosis, mae eich pryderon chi yn bryderon i ni. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'ch helpu i fyw bywyd mor llawn ag y gallwch chi.

A dydyn ni ddim yn stopio yn y fan honno. Rydyn ni'n gwneud popeth i ddod o hyd i ffyrdd gwell fyth o helpu pobl â chanser, gan helpu i agosáu at y diwrnod pan fydd pawb yn cael cymorth sy'n trawsnewid bywydau o'r diwrnod cyntaf.

Rydyn ni'n gwneud beth bynnag sydd ei angen. Ond heb eich help chi, ni allwn ni gefnogi pawb sydd ein hangen. I gyfrannu, gwirfoddoli, codi arian neu ymgyrchu gyda ni, ffoniwch **0300 1000 200** neu ewch i **macmillan.org.uk**




**Darllenwch ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022 yma**

CYMORTH CANSER
MACMILLAN

Argraffwyd gan ddefnyddio deunydd cynaliadwy. Ailgylchwch os gwelwch yn dda. Cymorth Canser Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. MAC19340_OVERVIEW_W